Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# Manteision grant Help Llaw | Benefits of Extra Hands grant

| Manteision grant Help Llaw | Benefits of an Extra Hands grant |
|---|---|
| Mae Rainbow Sunbeams After School Club wedi'i leoli yn St Julians, Casnewydd. Cysylltodd y perchennog â Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs pan oedd gan blentyn ag anghenion ychwanegol ddiddordeb mewn mynychu'r Clwb Ol-ysgol. Cwblhaodd y clwb gais am Gyllid Help Llaw drwy gyfrwng Grant Plant a Chymunedau a hynny drwy Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Dyfarnwyd iddynt y grant a oedd yn caniatáu iddynt gynnal yn ariannol a darparu aelod o staff Gwaith Chwarae er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i'r plentyn. | Rainbow Sunbeams After School Club is based in St Julians, Newport. The owner reached out to Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs when a child with additional needs was interested in attending the After School Club. The club completed an application for Extra Hands Funding through the Children and Communities Grant via Clubiau Plant Cymru Kids' Clubs. They were awarded the grant which allowed them to financially sustain and provide a a member of Playwork staff for additional support to the child. |
| **Pa gefnogaeth a oedd ei hangen?**<br>Pan holodd teulu'r plentyn am fynychu'r Clwb Ol-ysgol, fe wnaethant nodi rhai pethau y byddai ar y plentyn angen cymorth yn eu cylch.<br>• Yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol i'r clwb<br>• Yn ystod amser bwyd<br>• Cefnogaeth gymdeithasol a chyfathrebu | **What support was required?**<br>When the child's family enquired about attending the After School Club, they identified some areas where the child would require support.<br>• During transition from School to Club<br>• During mealtimes<br>• Socialising and communication support |
| **Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweld?**<br>Mae'r datblygiad a'r cynnydd a welwyd wedi bod yn sylweddol.  Pan fynychodd y plentyn am y tro cyntaf, nid oedd yn gallu bwyta bwydydd solet, cerdded yn annibynnol, geirfa gyfyngedig oedd ganddo a dim ond ychydig o ddiddordeb mewn rhyngweithio â phlant/oedolion. Mae e/hi bellach wedi llwyddo yn y canlynol:<br>• Wedi dechrau bwyta bwyd solet<br>• Diddordeb yn yr hyn y mae plant eraill yn ei wneud<br>• Yn ceisio cynnal sgyrsiau trwy ddweud geiriau mae'n eu cofio / ailadrodd geiriau<br>• Diogelwch ffyrdd wedi'i ddysgu - croesi ffyrdd a goleuadau traffig<br>• Mae'n cerdded yn annibynnol<br>Mae hyn yn dangos yr effaith y mae'r cyfle hwn wedi'i gael, mae'r clwb yn dweud<br>• *"Heb y cyllid hwn byddai'r plentyn yn colli'r oriau ychwanegol hyn o ddysgu. Byddai hefyd yn colli allan ar gymdeithasu gyda phlant eraill sydd* | **What changes have you seen?**<br>The development and progression noticed has been significant.  When the child first attended, s/he was unable to eat solid foods, walk independently, had limited vocabulary and little interest in interacting with children/adults. S/he has now successfully:<br>• Began eating solid food<br>• Interested in what other children are doing<br>• Attempts conversations by saying words he remembers/repeating words<br>• Learnt road safety- crossing roads and traffic lights<br>• Walking independently<br>This demonstrates the impact this opportunity has had, the club states<br>• *"Without this funding the child would miss out on having extra hours of learning. He would also miss out on socialising with other children who also enjoy interacting and engaging with him, creating* |

| | |
|---|---|
| *hefyd yn mwynhau rhyngweithio ac ymgysylltu ag ef, gan greu perthnasau positif a fydd o fudd iddo yn y dyfodol".* | *positive relationships which will benefit him in future".* |
| **Pam fod grantiau fel hyn yn bwysig?**<br>• *"Heb grantiau fel y rhain ni fyddai plant tebyg i'r plentyn yn gallu mynd i ofal plant all-ysgol, gan eu hatal rhag adeiladu eu sgiliau a'u datblygiad cymdeithasol"* (Staff Clwb All-Ysgol). | **Why are grants like this important?**<br>• *"Without grants like these children similar to the childwould not be able to attend out-of-school childcare, preventing them from building their socialisation skills and development"* (Out of School Club Staff). |
| **Dealltwriaeth rhieni o'r cyllid:**<br>Mae rhieni'r plentyn wedi gweld gwahaniaeth amlwg<br>• "*Mae ef/hi wedi dod yn fwy annibynnol ac mae â sgiliau cymdeithasol da". Maen nhw'n dweud*<br>• *"Mae'r gefnogaeth 1:1 hon mor ddefnyddiol, hyd nes iddo ddatblygu fel plant eraill o'i hoedran/hi, rwy'n credu bod y grant hwn yn hanfodol."* (rhiant) | **Parents insight on the funding:**<br>The parents of the child have seen a noticeable difference<br>• *"S/He has become more independent and good social skills".* They believe that<br>• "*This 1:1 support is so helpful, until he develops like other children her/his age I believe this grant in essential."* (parent) |
| Mae'r grant wedi bod o fudd mawr i'w bywyd personol/gwaith gan fod mam bellach wedi<br>• *"tawelwch meddwl tra yn y gwaith".*<br>Rhannwyd y byddai'r plentyn, yn flaenorol, a heb gefnogaeth 1:1<br>• "*yn cael ei adael yn llwglyd drwy'r amser*",<br>Erbyn hyn, mae ef/hi yn gallu cael gafael ar y gofal sydd ei angen arno i gael help gyda'i fwyta. | The grant has greatly benefited their personal/work life as mum now has<br>• *"peace of mind while in work".*<br>It was shared that previously, without 1:1 support the child would be<br>• *"left hungry all of the time",*<br>S/he is now able to access the care he needs to be supported with his eating. |
| Pan ofynnwyd a fyddai presenoldeb yn Sunbeams Enfys yn parhau ar ôl cyfnod y grant, yr ymateb a roddwyd oedd "Na, gan na allwn fforddio'r gefnogaeth 1:1" , a hyn yn tynnu sylw at yr angen mawr am i'r cyllid hwn barhau. | When asked if attendance at Rainbow Sunbeams would continue after the grant period, the response given was *"No as we can't afford the 1:1 support" highlighting* the much-needed continuation of this funding. |
| ***Sylw gan Rainbow Sunbeams:***<br>*"Mae'r SDBG yng Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wastad yno i gefnogi pan fo angen. Diolch am roi'r cyfle yma i ni weithio gyda'r plentyn".*<br>**Sylw gan y rhieni:**<br>*"Diolch am y grant a'r gefnogaeth, diolch i'r grant hwn, mae'r plentyn yn agosach at* | **Comment from Rainbow Sunbeams:**<br>*"The CBDO's at Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs are always there to support when needed. Thank you for giving us this opportunity to work with the child".*<br>**Comment from the parents:**<br>*"Thank you for the grant and support, thanks to this grant, the child is closer to developing the* |

| | |
|---|---|
| *ddatblygu'r sgiliau fel plant eraill yn ei grŵp oedran, gan oresgyn ei rwystr oherwydd ei dwf cynamserol."* <br><br> **Os oes angen cymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau (bach neu fawr), peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni yma yng Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, rydym yma i helpu: info@clybiauplantcymru.org Gallwch ddod i wybod mwy am y gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'ch clwb ar ein gwefan: www.clybiauplantcymru.org** | *skills like other children in his age group, overcoming his barrier due to his premature growth."* <br><br> **If you need support or have any queries (big or small), don't hesitate to contact us here at Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, we're here to help: info@clybiauplantcymru.org You can find out more about the support we can offer your club at our website: www.clybiauplantcymru.org** |